CBAC Lefel 2

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o'r gyfres newydd o gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant yng Nghymru a ddarperir gan City&Guilds/CBAC.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Asesu am y tro cyntaf Ionawr 2024



# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| Asesiad Allanol: | Papur Cwestiynau Prawf Dewis Lluosog | 4 |
| | Cynllun marcio | 19 |


© WJEC CBAC Ltd.

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

# ASESIAD ALLANOL ENGHREIFFTIOL

# Prawf Dewis Lluosog

© WJEC CBAC Ltd.

# Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd

## Asesiad Allanol

## Prawf er mwyn cadarnhau enghreifftiol 2 – fersiwn papur

| | |
|---|---|
| Enw'r Ymgeisydd: | Enw'r Ganolfan: |
| Rhif yr Ymgeisydd: | Rhif y Ganolfan: |

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhaid i chi ddefnyddio beiro du neu las.

Mae pob cwestiwn yn dangos pedwar ateb posibl, dim ond un ateb sy'n gywir.

Rhaid i chi roi cynnig ar bob cwestiwn drwy nodi'r ymateb cywir ar y papur:
a, b, c neu ch.

Rhaid i chi dicio "✓" **un** ymateb cywir.

Mae'r papur hwn yn cynnwys **65** o gwestiynau.

**Mae'r papur cwestiynau hwn yn eiddo i CBAC a dylid ei ddychwelyd ar ôl cwblhau'r asesiad.**

© WJEC CBAC Ltd.

1. Nodwch pa un o'r canlynol sy'n diffinio'r dull gweithredu i drin pob plentyn fel unigolyn, yn gyfartal a pheidio â phrofi unrhyw achos o wahaniaethu yn ei erbyn.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Dull gweithredu ymddygiad. | |
| (b) | Dull gweithredu seiliedig ar hawliau. | |
| (c) | Dull gweithredu eiriolaeth. | |
| (ch) | Dull gweithredu cadarnhaol. | |

2. Pam mae hyrwyddo diwylliant Cymru yn bwysig i blant mewn lleoliad gofal plant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | I annog dealltwriaeth o bolisïau a gweithdrefnau Cymru. | |
| (b) | I ddarparu cysylltiadau â deddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol allweddol. | |
| (c) | I annog ymdeimlad o berthyn a theimlo'n rhan o'r gymuned. | |
| (ch) | I gefnogi a deall diwylliannau eraill yn y byd. | |

3. Mae'n bwysig rhannu gwybodaeth am gefndir diwylliannol plentyn gyda'r lleoliad. Sut byddai rhannu'r wybodaeth hon yn cefnogi anghenion y plentyn mewn modd cadarnhaol?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gall plentyn gael gweithgareddau gwahanol i'w gwneud. | |
| (b) | Gall iechyd plentyn gael ei hyrwyddo. | |
| (c) | Gall diwylliant plentyn gael ei werthfawrogi a'i ddathlu. | |
| (ch) | Gellir cofnodi'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu. | |

4. Beth yw manteision cefnogi ymddygiad gan ddefnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Anelu at batrymau ymddygiad gosod a ffurfiol. | |
| (b) | Bod yn gadarnhaol o ymddygiadau gwrthgymdeithasol yn y lleoliad. | |
| (c) | Newid y dulliau gweithredu ymddygiad yn rheolaidd. | |
| (ch) | Darparu dulliau gweithredu ac ymatebion cyson. | |

5. Nodwch y ddeddfwriaeth sy'n cynnig yr amddiffyniad mwyaf yn erbyn gwahaniaethu yng Nghymru.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | |
| (b) | Y Ddeddf Plant 1989 a 2004. | |
| (c) | Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae 2004 | |
| (ch) | Deddf Cydraddoldeb 2010. | |

© WJEC CBAC Ltd.

6. Nodwch beth mae plant sy'n gallu cymryd risgiau wrth chwarae yn ei olygu.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | I annog plant i herio eu hunain yn ddiogel. | |
| (b) | I ddarparu cyfleoedd peryglus wrth chwarae. | |
| (c) | I gymryd pob risg wrth chwarae i ffwrdd o'r amgylchedd. | |
| (ch) | Tynnu pob goruchwyliaeth a chymorth i ffwrdd. | |

7. Nodwch y dulliau mwyaf effeithiol o sut mae plant yn datblygu sgiliau Cymraeg mewn lleoliad gofal plant.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Datblygu iaith drwy gael y plant i siarad Cymraeg yn unig. | |
| (b) | Dysgu iaith newydd drwy ddefnyddio geiriau Cymraeg yn unig. | |
| (c) | Datblygu iaith drwy weithgareddau chwarae Cymraeg. | |
| (ch) | Dysgu sut i ysgrifennu mewn iaith newydd drwy gopïo o lyfrau. | |

8. Beth sydd bwysicaf i staff gofal plant wrth osod ffiniau ymddygiad cadarnhaol i blant ifanc?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Creu amgylchedd cyfeillgar i rai o'r plant yn y lleoliad. | |
| (b) | Nodi nodau ymddygiad y mae modd eu cyflawni a chytuno arnynt. | |
| (c) | Cefnogi plant ac adnabod ymddygiad negyddol. | |
| (ch) | Rhoi gwybod am unrhyw bryderon wrth hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. | |

9. Mae mathau amrywiol o newid a phontio a all ddigwydd yn ystod bywyd plentyn.

Pa un o'r canlynol sy'n enghraifft o gyfnod pontio y byddai plentyn yn ei brofi fel digwyddiad mawr mewn bywyd?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Bwyta math o lysieuyn newydd. | |
| (b) | Dechrau ysgol llawn amser neu ran amser. | |
| (c) | Aros gyda theidiau a neiniau/mamau a thadau-cu yn rheolaidd. | |
| (ch) | Brwsio ei ddannedd gyda phast dannedd newydd. | |

10. Mae gan rieni hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol. Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n disgrifio rhywun â 'chyfrifoldebau rhiant'?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau am fagwraeth plentyn. | |
| (b) | Cyfrifoldeb am gael gafael ar wybodaeth bersonol. | |
| (c) | Y cyfrifoldeb i adael y plentyn mewn gofal cyn ysgol. | |
| (ch) | Y cyfrifoldeb cyfreithiol i ddarparu arian i gyfrif banc. | |

© WJEC CBAC Ltd.

11. Nodwch sut i gefnogi llesiant a chynhwysiant mewn lleoliad gofal plant.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Hyrwyddo amgylchedd iach, diogel a chyfartal. | |
| (b) | Darparu cymorth ymddygiad cadarnhaol i staff. | |
| (c) | Darparu amgylchedd cymdeithasol, amser rhydd. | |
| (ch) | Hyrwyddo ymweliadau gan weithwyr iechyd proffesiynol. | |

12. Beth yw ystyr ‘gwaith perthynas-ganolog’?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Proses o gyfnewid meddyliau a syniadau. | |
| (b) | Dull personol o gefnogi perthnasoedd cadarnhaol. | |
| (c) | Tîm gweithlu i ddatrys problemau. | |
| (ch) | Datblygu cronfa ddata ar gyfer gwybodaeth bersonol. | |

13. Mae cyfathrebu yn effeithiol pan fydd pawb dan sylw yn deall yr ystyr sy'n cael ei fynegi o fewn y neges a gwrando'n ofalus ar beth sydd wedi'i ddweud.

Pa un o'r gosodiadau canlynol sy'n diffinio ‘cyfathrebu effeithiol’?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Canolbwyntio ar eich meddyliau a'ch safbwyntiau eich hunain. | |
| (b) | Casglu'r wybodaeth at ei gilydd a'i chofnodi. | |
| (c) | Rhannu gwybodaeth emosiynol a phersonol pobl eraill. | |
| (ch) | Y broses o gyfnewid syniadau, meddyliau a safbwyntiau. | |

14. Gall gwerthoedd a chredoau personol gael effaith ar eich agwedd a'ch ymddygiad eich hun.

Pa un o'r canlynol fyddai'n arfer priodol wrth weithio gyda phlant a theuluoedd/gofalwyr?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Meddu ar agwedd gadarnhaol, er mwyn i blant a theuluoedd/gofalwyr deimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain ac am y lleoliad. | |
| (b) | Gwneud rhagdybiaethau am werthoedd a chefndiroedd plant a'u teulu/gofalwyr. | |
| (c) | Defnyddio stereoteipio i feithrin dealltwriaeth o gefndiroedd teuluol. | |
| (ch) | Trosglwyddo gwerthoedd a chredoau personol er mwyn i'r teulu/gofalwyr newid eu rhai nhw. | |

© WJEC CBAC Ltd.

15. Beth y mae'n rhaid ei gwblhau cyn y gall lleoliad roi delweddau o blant ar wefan y lleoliad?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Sicrhau bod yr ystafell yn daclus a bod arddangosfeydd newydd ar y waliau a fydd yn ymddangos yn y lluniau. | |
| (b) | Sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi gwisgo'n dda yn eu gwisgoedd unffurf ar gyfer y wefan. | |
| (c) | Sicrhau bod y rhieni wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio llun eu plentyn. | |
| (ch) | Sicrhau bod amrywiaeth eang o ardaloedd ar gael i dynnu llun ohonynt. | |

16. Mae hyrwyddo llesiant plant yn rhan allweddol o'u cadw nhw'n ddiogel.

Pa un o'r ffactorau canlynol fydd yn effeithio fwyaf ar iechyd a llesiant plentyn?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Methu â chael ffôn symudol. | |
| (b) | Colli allan ar barti plentyn. | |
| (c) | Bod eisiau bwyd a diffyg cwsg. | |
| (ch) | Bod heb ddillad glân. | |

17. Mae gan Abbie angen dysgu ychwanegol ac mae'n well ganddi ddewis ei gweithgareddau chwarae ei hun yn ystod amser chwarae yn lle chwarae yn y grŵp. Sut gallai ei gweithiwr allweddol ei helpu i wneud hyn?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Drwy roi'r cyfle iddi gael mwy o hwyl. | |
| (b) | Drwy roi'r cyfle iddi ddysgu sgiliau cyfathrebu. | |
| (c) | Drwy roi profiad dysgu cadarnhaol o'i dewis ei hun iddi. | |
| (ch) | Drwy roi cyfleoedd i gael perthynas gadarnhaol â'i gweithiwr allweddol. | |

18. Mae eistedd i fyny heb gymorth yn garreg filltir ddisgwyliedig o ran datblygiad corfforol baban. Pa garreg filltir fyddai disgwyl i faban ei chyrraedd nesaf?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Dal ei ben i fyny heb gymorth. | |
| (b) | Tynnu ei hun i fyny ar ei draed gyda chymorth. | |
| (c) | Swingio ei fraich o gwmpas i estyn allan. | |
| (ch) | Cerdded o gwmpas yr ystafell heb gymorth. | |

© WJEC CBAC Ltd.

19. Pam mae angen i leoliadau gofal plant ddarparu 'cyfnodau tawel' yn ogystal â gweithgarwch corfforol?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Caniatáu amser i staff drefnu gweithgareddau newydd ar gyfer y plant. | |
| (b) | Sicrhau bod gan y plant amser i gael byrbryd a diod. | |
| (c) | Rhoi amser i'r staff gwblhau taflenni cofnod dyddiol ar gyfer y plant. | |
| (ch) | Rhoi amser i'r plant ddod i orffwys a meddwl am eu profiadau. | |

20. At ba un o'r gweithwyr proffesiynol canlynol fyddai plentyn sydd ag anawsterau cyfathrebu'n cael ei atgyfeirio ato?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Therapydd lleferydd ac iaith. | |
| (b) | Therapydd chwarae. | |
| (c) | Ffisiotherapydd. | |
| (ch) | Seicolegydd Addysg. | |

21. Pa ganllawiau fyddai gweithiwr gofal plant yn ei ddefnyddio i greu polisi meddyginiaeth newydd i'r lleoliad?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Deddf Iechyd a Diogelwch 1974. | |
| (b) | Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir 2016. | |
| (c) | Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith 1992. | |
| (ch) | Gweithrediadau Codi a Chario 1992. | |

22. Sut gall plant ddiogelu eu dannedd yn y ffordd orau ar gyfer gofal dannedd tymor hir?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Brwsio dannedd ddwywaith y dydd, gan ddefnyddio past dannedd fflworid. | |
| (b) | Brwsio dannedd unwaith y dydd, ar ôl bwyta losin. | |
| (c) | Defnyddio cegolch a rinsio dannedd. | |
| (ch) | Defnyddio past dannedd siarcol a rinsio. | |

23. Wrth weithio ar weithgaredd gyda grŵp o blant, rydych chi'n sylwi ar un o'r plant sy'n ddi-eiriau ac sydd wedi gwlychu ei hun. Beth dylech chi ei wneud?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Dod â dillad glân draw i newid y plentyn. | |
| (b) | Aros tan y bydd pob plentyn yn gorffen y gweithgaredd. | |
| (c) | Galw ar aelod arall o'r staff a dweud wrtho am ei newid. | |
| (ch) | Cysuro'r plentyn, gofyn i aelod arall o'r staff fynd â'r plentyn yn dawel i'w newid. | |

© WJEC CBAC Ltd.

24. Pa un o'r gweithgareddau canlynol fyddai'n rhoi profiad cadarnhaol ac yn annog plant i wneud dewisiadau bwyd iach?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gwneud cacennau creision ŷd siocled i'r plant. | |
| (b) | Gwneud cebab ffrwythau gyda'r plant. | |
| (c) | Rhoi amrywiaeth o fwydydd iach plastig yn y gegin chwarae. | |
| (ch) | Plannu coed yn yr ardd y tu allan. | |

25. Mae angen i blant gael strwythurau a phatrymau clir yn eu bywyd bob dydd. Nodwch bwysigrwydd cael arferion cyson i blant.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gwneud amser i rieni/gofalwyr weithio. | |
| (b) | Datblygu gweithgareddau llesiant a chorfforol. | |
| (c) | Cefnogi eu llesiant a'u datblygiad. | |
| (ch) | Caniatáu ar gyfer rhagor o weithgareddau a gemau. | |

26. Mae chwarae yn sylfaenol i blant ac yn cyfrannu tuag at bob maes datblygiad.

Pa un o'r canlynol sy'n diffinio'n gryf pam mae chwarae yn bwysig mewn plentyndod cynnar?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gall chwarae wella'r ffordd y mae plant yn dysgu sgiliau gwybyddol a'u sgiliau datrys problemau. | |
| (b) | Mae mathau gwahanol o chwarae y mae plant yn eu dysgu gan oedolion. | |
| (c) | Ni all plant ddysgu oni bai eu bod yn defnyddio eu dychymyg drwy chwarae rôl. | |
| (ch) | Mae chwarae yn gwella llesiant gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant. | |

27. Mae ardal chwarae newydd wedi'i pharatoi i'r plant. Sut byddai staff yn asesu a yw'r ardal yn ysgogol i blant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Mae'r plant yn gorffwys ac yn ymlacio yn yr ardal. | |
| (b) | Mae'r plant yn canolbwyntio wrth chwarae. | |
| (c) | Mae sylw'r plant yn cael ei dynnu gan weithgaredd chwarae gwahanol. | |
| (ch) | Mae'r plant yn gadael yr ardal am un arall. | |

28. Nodwch y fframwaith cyfreithiol sy'n gymwys yn benodol i blant ag anghenion ychwanegol

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). | |
| (b) | Y Ddeddf Plant 1989 a 2004. | |
| (c) | Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. | |
| (ch) | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | |

© WJEC CBAC Ltd.

29. Beth yw prif bwrpas disgrifiad swydd i'r cyflogai?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Amlinellu rolau swydd er mwyn atal straen yn yr amgylchedd gwaith. | |
| (b) | Amlinellu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. | |
| (c) | Amlinellu rolau swydd er mwyn atal gwrthdaro a straen yn yr amgylchedd gwaith. | |
| (ch) | Amlinellu disgwyliadau o ran dyletswyddau a chyfrifoldebau'r unigolyn. | |

30. Mae aelod newydd o staff wedi dechrau gweithio mewn lleoliad gofal plant. Gofynnodd a allai ddarllen polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad. Pam ei bod yn bwysig ei fod yn gwneud hyn?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Er mwyn iddo allu llofnodi ei gontract cyflogaeth. | |
| (b) | Er mwyn iddo wybod sut y dylai ymgymryd â'i rôl. | |
| (c) | Er mwyn i'r rheolwr allu llofnodi ei waith papur sefydlu. | |
| (ch) | Er mwyn iddo fod yn ymwybodol o'i gyflog a'i hawl i wyliau. | |

31. Pa un o'r canlynol sy'n nodi'n effeithiol bwysigrwydd 'gwaith amlasiantaethol' i fodloni anghenion y plant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Er mwyn dangos gwaith tîm effeithiol i leoliadau eraill. | |
| (b) | Er mwyn sicrhau canlyniadau i bob plentyn yn y lleoliad. | |
| (c) | Rhannu gwybodaeth am rolau eraill yn y tîm. | |
| (ch) | Er mwyn darparu gofal parhaus i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. | |

32. Beth yw prif bwrpas Safonau'r Gymraeg 2018?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Sicrhau dull gweithredu amlddiwylliannol ym mhob lleoliad. | |
| (b) | Gwneud pob plentyn sy'n mynychu lleoliadau meithrin yng Nghymru yn ddwyieithog. | |
| (c) | Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob lleoliad. | |
| (ch) | Annog mwy o blant i fynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg. | |

33. Beth yw nod 'cod ymddygiad'?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Cael cefnogaeth y rhieni/gofalwyr. | |
| (b) | Cynnal safonau proffesiynol a'u gwella. | |
| (c) | Gosod rôl swydd gweithwyr proffesiynol. | |
| (ch) | Cyflawni'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y lleoliad. | |

© WJEC CBAC Ltd.

34. Mae gweithio fel rhan o dîm yn cefnogi arfer da mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Nodwch pa un o'r canlynol sy'n nodi 'gweithio fel tîm' yn effeithiol i fodloni anghenion y plant orau.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Cyfathrebu dim ond pan fydd pryder neu angen. | |
| (b) | Cydweithio yn rheolaidd i gefnogi llesiant plant. | |
| (c) | Cyfarfod yn flynyddol i drafod camau gweithredu cefnogol ar gyfer plant. | |
| (ch) | Canolbwyntio ar y materion a diffyg cyfathrebu gweithio fel tîm. | |

35. Pa un o'r deddfwriaethau/canllawiau canlynol sy'n nodi sut i gynnal cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth yn briodol?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. | |
| (b) | Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018. | |
| (c) | Deddf Iechyd a Diogelwch 1974. | |
| (ch) | Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999. | |

36. Mae aelod o'r staff wedi gwneud sylw negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol am blentyn yn y lleoliad ac mae'r rhiant wedi cwyno. Beth fyddai'r cam gweithredu?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gwneud nodyn o'r gŵyn rhag ofn y bydd yn digwydd eto. | |
| (b) | Dylid cael ymchwiliad a chamau disgyblu posibl i ddilyn. | |
| (c) | Ystyried y mater fel camgymeriad posibl a pheidio â chymryd unrhyw gamau. | |
| (ch) | Dylid cael cyfarfod i ddatrys y mater gyda'r rhiant a'r plentyn. | |

37. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio prif faes ffocws gwerthusiadau staff unigol?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Cyfle i aelodau o staff drafod eu gwyliau. | |
| (b) | Cyfle i drafod plant sy'n cael anawsterau. | |
| (c) | Rhoi amser i reolwyr adolygu disgwyliadau eu cynnydd eu hunain. | |
| (ch) | Cyfle i reolwyr a staff fyfyrio ar arferion a datblygiad proffesiynol. | |

38. Beth yw'r dull mwyaf diogel, yn ôl pob tebyg, ar gyfer storio gwybodaeth am blant a staff mewn lleoliad ysgol?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Copïau papur mewn ffeil blwch yn ystafell y staff. | |
| (b) | Ar ddyfais storio symudol. | |
| (c) | Copïau papur mewn ffeil yn y dderbynfa. | |
| (ch) | Ar gyfrifiadur wedi'i ddiogelu â chyfrinair. | |

© WJEC CBAC Ltd.

39. Mae'r feithrinfa newydd ei hagor yn awyddus i annog arfer da a gwaith tîm cadarnhaol yn ei gweithlu newydd ei benodi. Pa un o’r canlynol sy’n arwydd o waith tîm effeithiol?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gweithio ar eu pen eu hunain, wedi'u hysbrydoli gan hunangymhelliant. | |
| (b) | Gweithio mewn amgylchedd dibynadwy a llawn cyfathrebu. | |
| (c) | Cuddio camgymeriadau a diogelu diddordebau ei gilydd. | |
| (ch) | Gweithio dim ond gyda phobl eraill gyda'r un math o bersonoliaeth. | |

40. Pa un o'r gosodiadau hyn sy'n diffinio amddiffyniad 'e-ddiogelwch' i blant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Lleihau namau trydanol a defnyddio cyfarpar electronig mewn ffordd ddiogel. | |
| (b) | Mwyhau ymwybyddiaeth o ddiogelwch personol a risgiau i ddiogelwch ar-lein. | |
| (c) | Darparu amddiffyniad i bobl sy'n cael gafael ar wybodaeth sydd wedi'i storio ar gyfrifiadur. | |
| (ch) | Atal y defnydd o unrhyw fath o dechnoleg neu gyfarpar cyfrifiadurol. | |

41. Beth yw ystyr y term ‘chwythu'r chwiban’?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Peidio â chadw at reolau cyfrinachedd. | |
| (b) | Hel straeon y tu allan i'r lleoliad gofal plant. | |
| (c) | Rhoi gwybod i rieni am newidiadau yn y lleoliad gofal plant. | |
| (ch) | Siarad am arferion anfoesol neu amhroffesiynol. | |

42. Mae plentyn wedi dod i mewn i leoliad yn gwisgo dillad brwnt/budr ac mae'n teimlo'n llwglyd. Beth allai hyn fod yn arwydd ohono?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Cam-drin emosiynol. | |
| (b) | Cam-drin corfforol. | |
| (c) | Esgeulustod. | |
| (ch) | Cam-drin rhywiol. | |

43. Nodwch bwysigrwydd arferion plentyn-ganolog sy’n cael eu dilyn mewn ymateb i bryder o ran diogelu.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Cynnwys rheolwyr yn y broses o wneud penderfyniadau. | |
| (b) | Cael safbwyntiau'r rhieni/gofalwyr ar ofal eu plant. | |
| (c) | Er mwyn sicrhau bod dymuniadau'r plentyn yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. | |
| (ch) | Rhoi amser i weithwyr proffesiynol adrodd am eu barn a'u safbwyntiau. | |

© WJEC CBAC Ltd.

44. Beth sy'n cael ei ystyried yn arfer priodol ar ôl i blentyn ddatgelu sefyllfa lle cafodd ei niweidio?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Casglu rhagor o wybodaeth a theipio'r cyfan pan fydd yn barod i'w chwblhau. | |
| (b) | Rhoi manylion ysgrifenedig i'r swyddog diogelu cyn gynted â phosibl. | |
| (c) | Trosglwyddo'r manylion pan fydd mwy o dystiolaeth wedi'i chasglu. | |
| (ch) | Esbonio i ysgrifennydd yr ysgol ar lafar pwy all deipio'r adroddiad. | |

45. Nodwch rôl eiriolwr plant mewn achos diogelu.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Hysbysu'r rhieni/gofalwyr ynghylch safbwyntiau a theimladau'r plentyn. | |
| (b) | Cynrychioli'r ysgol yn yr achos diogelu. | |
| (c) | Siarad am ddymuniadau a theimladau ar ran y plentyn. | |
| (ch) | Cynrychioli rhieni/gofalwyr yn yr achos diogelu. | |

46. Beth fyddai'n cael ei ystyried yn arfer diogel i sicrhau diogelwch y gweithwyr gofal plant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Sicrhau bod mwy nag un aelod o staff yn bresennol drwy'r amser. | |
| (b) | Sicrhau bod yr ymwelwyr wedi cwblhau'r llyfr ymwelwyr. | |
| (c) | Gwirio enwau a chyfeiriadau rhieni/gofalwyr y plant. | |
| (ch) | Sicrhau bod giât y feithrinfa wedi'i chloi'n ddiogel. | |

47. Nodwch yr ymateb priodol i bryder am esgeuluso plant.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Darparu dillad glân a golchi'r plentyn bob dydd. | |
| (b) | Siarad â'r rhieni/gofalwyr mewn perthynas â'r pryder. | |
| (c) | Codi'r mater yn y cyfarfod staff nesaf. | |
| (ch) | Cofnodi a rhoi gwybod am y pryder cyn gynted â phosibl. | |

48. Yn ystod cyfnod yn chwarae gyda thŷ doliau, datgelodd plentyn ei fod yn cael ei gloi yn ei ystafell wely ar ôl mynd gartref o'r ysgol. Beth allai hyn fod yn arwydd ohono?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Cam-drin emosiynol a chorfforol. | |
| (b) | Cam-drin corfforol a rhywiol. | |
| (c) | Esgeulustod a cham-drin emosiynol. | |
| (ch) | Cam-drin rhywiol ac emosiynol. | |

© WJEC CBAC Ltd.

49. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r weithdrefn gywir orau wrth gofnodi manylion personol plant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Bydd manylion personol plant yn cael eu cwblhau yn barod i'w harchwilio. | |
| (b) | Rhaid i fanylion personol plant gael eu hadolygu'n rheolaidd a bod yn ffeithiol. | |
| (c) | Mae manylion personol ond yn cael eu cofnodi pan fydd y plant yn dechrau yn y feithrinfa. | |
| (ch) | Nid oes angen manylion personol y plant os yw'r staff yn adnabod y teulu/gofalwyr. | |

50. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r camau priodol sydd eu hangen i ddiogelu lles plentyn?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Hysbysu'r plentyn a'r rhieni/gofalwyr ynghylch beth sydd orau i'r plentyn. | |
| (b) | Sicrhau y rhoddir gwybod am unrhyw bryder neu amheuaeth ac ymchwilio iddynt. | |
| (c) | Sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu. | |
| (ch) | Cymryd yr amser i ddeall y broses o amddiffyn plant. | |

51. Beth yw ystyr y term 'e-ddiogelwch'?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Defnyddio cyfarpar trydanol yn ddiogel. | |
| (b) | Defnydd diogel o gyfarpar codi. | |
| (c) | Yr hyb gwybodaeth a chyfathrebu. | |
| (ch) | Diogelwch ar-lein neu ddiogelwch y rhyngrwyd. | |

52. Mae arferion gofal plant yn bwysig wrth ddiogelu plant.

Pa un o'r deddfwriaethau canlynol sy'n cynnwys diogelu?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Deddf Hawliau Dynol 1998. | |
| (b) | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | |
| (c) | Y Ddeddf Plant 1989 a 2004. | |
| (ch) | Deddf Cydraddoldeb 2010. | |

53. Nodwch pwy sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch yn y gweithle.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Pob aelod o staff sy'n gweithio yn y lleoliad. | |
| (b) | Y gofalwr a'r uwch aelodau o staff. | |
| (c) | Y rheolwr a'r dirprwy reolwr. | |
| (ch) | Y plant yn y lleoliad. | |

© WJEC CBAC Ltd.

54. Beth yw prif rôl y cyflogwr mewn lleoliad gofal plant mewn perthynas â diogelwch tân?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gwirio cofnodion yr ymarferion tân. | |
| (b) | Ystyried diogelwch y staff. | |
| (c) | Sicrhau bod staff yn gwybod ac yn ymarfer y gweithdrefnau ymarferion tân. | |
| (ch) | Gwirio bod diffoddwyr tân ar gael yn yr adeilad. | |

55. Nodwch bwysigrwydd cofnodi digwyddiadau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Er mwyn i rieni allu ymddiried mwy yn y staff. | |
| (b) | Er mwyn gallu gwerthuso digwyddiadau ac atal damweiniau pellach. | |
| (c) | Er mwyn i staff wybod ble y mae eitemau iechyd a diogelwch yn cael eu cadw. | |
| (ch) | Er mwyn i'r staff wybod beth i'w ddisgwyl ganddynt os bydd digwyddiad. | |

56. Os bydd aelod o'r staff yn teimlo dan straen, beth ddylai'r lleoliad ei wneud i helpu staff sy'n teimlo dan straen?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Sicrhau y gall staff weithio diwrnod yn hirach i gwblhau'r holl waith. | |
| (b) | Annog y staff i gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith a chwblhau gwaith ar ôl dychwelyd. | |
| (c) | Cynghori'r staff i siarad â ffrind neu aelod o'r teulu. | |
| (ch) | Annog y staff i siarad â'u rheolwr neu arweinydd lleoliad. | |

57. Beth yw ystyr y term ‘asesiad risg’?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Rheoli'r lefelau diogelwch yn y lleoliad. | |
| (b) | Cael gwared ar unrhyw risgiau o niwed o'r lleoliad. | |
| (c) | Nodi peryglon a lleihau'r risgiau o niwed. | |
| (ch) | Rhoi gwybod i bobl eraill am y peryglon yn y lleoliad. | |

58. Os oes amheuaeth o achosion o glefyd heintus, neu os oes sawl achos wedi'i gadarnhau yn y lleoliad, i bwy y mae angen rhoi gwybod?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Y Tîm Diogelu Iechyd lleol. | |
| (b) | Ymwelydd Iechyd y plant. | |
| (c) | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd. | |
| (ch) | Y Swyddog Iechyd a Diogelwch. | |

© WJEC CBAC Ltd.

59. Mae Alex wedi dechrau gweithio yn yr ystafell babanod ac yn ystod ei chyfnod sefydlu, pwysleisiodd ei rheolwr bwysigrwydd gwisgo ffedog a menyg untro. Nodwch y prif reswm pryd y byddai angen yr amddiffyniad hwn.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Wrth newid y babanod yn yr ardal newid. | |
| (b) | I gadw'r ardal plannu'r ardd yn daclus. | |
| (c) | Wrth greu yn yr ardal gelf a pheintio. | |
| (ch) | I gadw unrhyw wisgoedd unffurf yn lân fel y gallwn eu defnyddio eto. | |

60. Mae blasu ffrwythau yn rhan o'r gweithgareddau dyddiol yn y feithrinfa. Pa liw bwrdd torri y dylid ei ddefnyddio i baratoi'r ffrwythau?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Coch. | |
| (b) | Gwyrdd. | |
| (c) | Melyn. | |
| (ch) | Glas. | |

61. Nodwch bwysigrwydd cael mesurau diogelwch bwyd mewn lleoliad gofal plant.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Casglu tystysgrif hylendid bwyd ar gyfer y lleoliad. | |
| (b) | Sicrhau bod digon o fwyd i'r plant i gyd. | |
| (c) | Sicrhau bod y bwyd yn edrych ac yn blasu'n dda i'r plant. | |
| (ch) | Er mwyn sicrhau na fydd y plant yn cael gwenwyn bwyd. | |

62. Gofynnwyd i Jaden baratoi byrbrydau i'r plant. Pam ei bod yn bwysig sicrhau bod pob arwyneb, darn o offer a chyfarpar yn lân er mwyn paratoi'r byrbrydau?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Er mwyn sicrhau bod y byrbrydau'n cael eu gweini yn gyflym. | |
| (b) | Er mwyn sicrhau bod popeth yn barod i wneud y byrbrydau. | |
| (c) | Er mwyn sicrhau bod y byrbrydau'n cael eu paratoi gan fodloni mesurau diogelwch bwyd. | |
| (ch) | Er mwyn arbed amser a sicrhau nad oes angen glanhau. | |

63. Bydd perthynas Chloe yn ei chasglu o'r feithrinfa ac nid yw'r staff wedi cwrdd â'r berthynas o'r blaen. Nodwch arfer da o ran sut y mae plant yn cael eu rhyddhau o'r feithrinfa.

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Defnyddio cerdyn adnabod i sicrhau bod yr unigolyn yn dweud y gwir am bwy ydyn nhw. | |
| (b) | Gofyn i'r rhieni eraill sy'n aros ydy hi'n iawn i adael i'r plentyn adael gyda'r oedolyn. | |
| (c) | Defnyddio cynllun a system y cytunwyd arnynt fel cyfrineiriau a dulliau adnabod. | |
| (ch) | Gofyn i'r plentyn bwyntio at yr oedolyn sydd wedi dod i'w gasglu. | |

© WJEC CBAC Ltd.

64. Ble y dylid storio sylweddau fflamadwy mewn lleoliad gofal plant?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Mewn cwpwrdd wedi'i gloi. | |
| (b) | Yn ystafell y staff. | |
| (c) | Ar silff uchel. | |
| (ch) | Yn y gegin. | |

65. Pa un o'r canlynol yw'r ddeddfwriaeth allweddol gywir sy'n ymwneud â RIDDOR (2013)?

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Trychinebau neu Ddigwyddiadau Peryglus | |
| (b) | Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus | |
| (c) | Rheoliadau Digwyddiadau a Chlefydau Peryglus wrth Gofrestru | |
| (ch) | Rheoliadau Risg Pwysig, Peryglus, Clefydau a Galwedigaethol | |

© WJEC CBAC Ltd.

**CYNLLUN MARCIO: PRAWF DEWIS LLUOSOG**

Mae'r tabl canlynol yn dangos yr allwedd ateb cywir ar gyfer pob cwestiwn yn y prawf ac yn nodi'r cyfeirnod uned a'r cyfeirnod maen prawf asesu mae pob cwestiwn yn gysylltiedig ag ef.

| Cwestiwn | Allwedd ateb cywir | Uned | Meini prawf asesu |
|---|---|---|---|
| **1** | B | 1 | 2.1 |
| **2** | C | 1 | 9.3 |
| **3** | C | 1 | 3.3 |
| **4** | CH | 1 | 10.4 |
| **5** | CH | 1 | 1.1 |
| **6** | A | 1 | 5.1 |
| **7** | C | 1 | 9.4 |
| **8** | B | 1 | 10.3 |
| **9** | B | 1 | 11.1 |
| **10** | A | 1 | 4.12 |
| **11** | A | 1 | 6.5 |
| **12** | B | 1 | 7.1 |
| **13** | CH | 1 | 8.1 |
| **14** | A | 1 | 12.1 |
| **15** | C | 1 | 4.13 |
| **16** | C | 2 | 1.2 |
| **17** | C | 2 | 5.6 |
| **18** | B | 2 | 1.1 |
| **19** | CH | 2 | 2.7 |
| **20** | A | 2 | 4.5 |
| **21** | B | 2 | 8.1 |
| **22** | A | 2 | 6.4 |
| **23** | CH | 2 | 4.5 |
| **24** | B | 2 | 7.7 |
| **25** | C | 2 | 2.8 |
| **26** | CH | 2 | 3.1 |
| **27** | B | 2 | 3.10 |
| **28** | C | 2 | 5.1 |
| **29** | CH | 2 | 1.3 |
| **30** | B | 3 | 1.6 |
| **31** | CH | 3 | 2.3 |
| **32** | C | 3 | 6.3 |
| **33** | B | 3 | 1.1 |
| **34** | B | 3 | 3.3 |
| **35** | B | 3 | 4.3 |
| **36** | B | 3 | 5.3 |
| **37** | CH | 3 | 6.11 |
| **38** | CH | 3 | 4.4 |
| **39** | B | 3 | 3.2 |
| **40** | B | 4 | 1.2 |
| **41** | CH | 4 | 4.5 |
| **42** | C | 4 | 1.3 |
| **43** | C | 4 | 2.4 |
| **44** | B | 4 | 4.3 |
| **45** | C | 4 | 2.2 |

© WJEC CBAC Ltd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **46** | A | 4 | 2.9 |
| **47** | CH | 4 | 4.4 |
| **48** | C | 4 | 3.6 |
| **49** | B | 4 | 4.8 |
| **50** | B | 4 | 2.1 |
| **51** | CH | 4 | 1.2 |
| **52** | C | 4 | 2.4 |
| **53** | A | 5 | 1.2 |
| **54** | C | 5 | 3.2 |
| **55** | B | 5 | 2.7 |
| **56** | CH | 5 | 9.3 |
| **57** | C | 5 | 2.1 |
| **58** | A | 5 | 5.6 |
| **59** | A | 5 | 5.10 |
| **60** | B | 5 | 6.7 |
| **61** | CH | 5 | 6.3 |
| **62** | C | 5 | 6.5 |
| **63** | C | 5 | 8.3 |
| **64** | A | 5 | 7.3 |
| **65** | B | 5 | 1.1 |

© WJEC CBAC Ltd.